
# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Wali Wyth (8)** |
| Adnoddau: | • Blanced.<br>• Platiau.<br>• Ffrwythau.<br>• Cynhwysion i greu brechdan / ffrwyth salad. |
| Camau: | Cam 1 - Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Wali Wyth'.<br><br>Cam 2 – Yn y llyfr, mae Wali Wyth a'i ffrindiau'n mynd i'r parc i gael hwyl a sbri. Beth am i ni greu picnic i Wali Wyth a'i ffrindiau?<br>• Ewch i chwilio am 8 blodyn i'w rhoi ar y flanced bicnic.<br>• Bydd angen 8 plât ac 8 gwydr.<br>• Bydd angen creu 8 brechdan / siopa am 8 darn o ffrwyth, e.e. banana, afalau, grawnwin o'r siop ffrwythau.<br>• Bydd angen creu 8 addurn i'w rhoi i'r ffrindiau.<br>• Bydd angen creu gwahoddiadau i wahodd ffrindiau Wali Wyth i'r picnic. |
| Cwestiynu: | • Sawl plât sydd ei angen os bydd 8 o blant yn dod i gael picnic?<br>• Mae gen i 4 plât. Faint yn fwy sydd eu hangen i wneud 8?<br>• Mae gen i 10 cwpan. Faint sydd angen i mi eu tynnu bant i gael 8?<br>• Mae angen 8 cwpan o ddŵr. Oes digon o ddŵr yn y jwg/potel i lenwi'r 8 cwpan? Darganfod yn yr ardal ddŵr. |
| Beth nesaf? | • Chwarae gemau yn y parc ar ôl y picnic, e.e. taflu 8 pêl i mewn i hŵp, sgipio am 8 eiliad, hercian 8 gwaith.<br>• Creu gêm gan ddefnyddio wyth darn o offer chwaraeon - gwaith grŵp a meddwl fel tîm. |



Peniarth .cymru

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales